**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

**24 Mehefin 2016 (yp)**

**Siambr Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. John Arwel Roberts

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Gwen Griffith
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Dyfrig Jones

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (dros dro) (CG) |
| Dylan Williams | Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM) |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC |

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Brynmor Hughes (CG)
Cyng. John Pughe Roberts (CG)
Cyng. Michael Sol Owen (CG) - Eilydd

**1. YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni chafwyd ddatganiadau personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chafodd materion brys eu cyflwyno.

## 4. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2016 yn rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD DIWEDDARU

Cyflwynwyd diweddariad ynglŷn a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel a ganlyn:

- Yr Archwiliad Cyhoeddus
- Ymgynghoriad ar y Newidiadau â Ffocws
- Datblygu a'r Iaith Gymraeg
- Gwaith ychwanegol a raglenwyd 2016-2017

### Archwiliad Cyhoeddus

Esboniwyd fod y Cynllun wedi ei gyflwyno i'r Arolygaeth Cynllunio a bod Arolygwyr wedi eu penodi i ymgymryd ag Archwiliad Cyhoeddus. Hefyd, mae'r copïau o'r holl ddogfennau wedi eu gyrru i'r Swyddog Rhaglen, sef y pwynt cyswllt. Yn ogystal a hyn, mae'r dogfennau i'w gweld ar wefan y ddau Gyngor.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyn Gwrandawiad ar 14 Mehefin 2016, ac fe gyfeiriwyd at gyfarwyddyd a baratowyd gan yr Arolygydd.

Hefyd, cyfeiriwyd at yr amserlen ar gyfer cynnal y 'Gwrandawiadau' ynghyd a'r testunau ar eu cyfer. Y gobaith yw cwblhau'r 'Gwrandawiadau' erbyn 6 Hydref 2016 os ni fydd unrhyw lithriad. Disgwylir i ddatganiadau gan y Cynghorau a'r gwrthwynebwyr (sydd wedi dewis ymddangos yn y Gwrandawiadau) gael eu cyflwyno i'r Arolygydd erbyn 16 Awst 2016.

### Ymgynghoriad ar y Newidiadau â Ffocws

Cafwyd eglurhad o'r broses a'r canlyniadau o'r ymgynghoriad gan roi trosolwg o'r sylwadau fesul pennod o'r Cynllun Adnau.

Nodwyd bod dadansoddiad o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi amlygu rhai newidiadau posib i'r Newidiadau â Ffocws. Esboniwyd mai mân newidiadau ydynt ac nid rhai sylfaenol i'r Cynllun. Mae'r newidiadau posib yn fater i'r Arolygydd i'w hystyried. Nodwyd bydd newidiadau a awgrymwyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar ôl y Gwrandawiadau os fydd yr Arolygydd yn cytuno bod sail digonol i'w cynnwys yn y Cynllun.

### Datblygu a'r Iaith Gymraeg

Cafwyd eglurhad o'r penderfyniadau a gafodd eu gwneud gan Gyngor Gwynedd yn gysylltiedig â monitro ac asesu effaith ar les yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod nifer o weithgareddau cyd-berthnasol wedi cael eu rhaglennu (sydd ddim yn tanseilio penderfyniad Pwyllgor Polisi Cynllunio ar Cyd i gyflwyno y Cynllun Adnau a 'Newidiadau â Ffocws' i Llywodraeth Cymru):-

- Mireinio Canllawiau Atodol

- Diweddaru ein dealltwriaeth o gymunedau a'r iaith Gymraeg

    - ➢ Esboniwyd fod holiadur wedi ei yrru i fudiadau perthnasol ac unigolion er mwyn cael eu mewnbwn i ddechrau siapio'r CCA newydd. Yn ychwanegol i hyn cafwyd cyfarfod cyntaf gyda swyddogion o'r ddau Gyngor, cynrychiolwyr Hunaniaith, Menter Iaith Môn ac y Brifysgol.

Mewn ymateb i ail benderfyniad Cyngor Gwynedd cyfeiriwyd ar ohebiaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn i roi gwybod am y penderfyniad i ymgynghori am faterion yn ymwneud a lles yr iaith Gymraeg a dyhead Cyngor Gwynedd i sicrhau bod y gwaith yn cyfeirio at yr Ynys hefyd.

Pwyntiau a godwyd:

- Gofynnwyd faint o gyd-weithio (Gwynedd & Môn) sydd yn digwydd ar hyn o bryd.
- O ran mesur effaith ar yr iaith Gymraeg – a fyddwn yn mesur o hyn ymlaen yntau mynd yn ôl?
- Codwyd pwynt ynglŷn a'r fethodoleg a'r angen i sicrhau arweiniad am 'sut' i ateb cwestiynau, beth ydi'r disgwyliadau, ac yn y blaen, er mwyn sicrhau nad ydi'r ymgeisydd yn rhoi sgôr positif i'r datblygiad arfaethedig heb ddarparu unrhyw resymeg am ei sgôr ac osgoi rhesymau sydd ddim yn rhai grymus.
- Mynegwyd awydd i fod yn rhan o'r gwaith i fireinio'r canllawiau cynllunio atodol.

Mewn Ymateb:

- Esboniwyd bod y gwaith o gasglu barn ynglyn a'r canllawiau cynllunio atodol cyfredol yn rhoi cyfle i fudiadau sy'n gweithio yn y ddwy Sir i gynnig sylwadau. Cafwyd cyfarfod gyda swyddogion hyrwyddo'r iaith o'r ddwy Sir. Oherwydd bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio ar ran y ddwy Sir ac yn paratoi polisi a chanllawiau cynllunio ar gyfer y ddwy ardal fel ei gilydd, mae cydweithio yn rhan annatod o'r prosiect;
- Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto ynglyn â'r fethodoleg i sicrhau bod y wybodaeth am gymunedau a'r Gymraeg yn gyfoes. Mae'r Cynllun yn mynd i gael ei fonitro yn flynyddol ar ôl iddo gael ei fabwysiadu yn erbyn dangosyddion penodol, sy'n cynnwys rhai amrywiol a fydd yn mesur llwyddiant i gynnal cymunedau. Yn ogystal a hynny, mae angen cynnal y wybodaeth am yr ardal, gan gynnwys nodi os oes newidiadau arwyddocaol yn digwydd a allai effeithio ar weithredu polisïau. Bydd y gwaith sydd yn mynd ymlaen i ymateb i benderfyniad Cyngor Gwynedd yn dod i gasgliad ynglyn â sut i gadw'r darlun yn fyw mewn ffordd effeithiol. Bydd adroddiad am gasgliadau'r gwaith yn cael eu cyflwyno i'r Panel.
- Nodwyd y sylwadau am y fethodoleg.
- Cytunwyd i rannu gwybodaeth am yr holiadur a oedd wedi cael ei yrru i'r rhanddeiliaid.

**Gwaith ychwanegol a raglenwyd 2016-2017**

Cyfeiriwyd at raglen i baratoi cyfres gyntaf o ganllawiau cynllunio atodol a fyddai'n cefnogi polisïau perthnasol y Cynllun. Dewiswyd rhai a oedd gan oblygiadau polisi neu ariannol i'r Cynllun. Byddai rhai eraill yn dilyn. Y bwriad, yn ddarostyngedig i argaeledd adnoddau a gwaith yn gysylltiedig a'r Archwiliad, ydi cael y gyfres gyntaf o'r canllawiau yn barod i'w mabwysiadu mor fuan a phosib ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.

Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i ail-ymweld gyda'r gytundeb rhwng y ddwy Sir o ran y gwasanaeth polisi cynllunio. Mae'r gytundeb cyfredol yn dod i ben yn ystod 2017. Nodwyd bwriad i gyflwyno adroddiad am y mater i gyfarfod y Panel cyn diwedd 2017.